cbac
wjec

# TAG UWCH

**1000N60-1**

**DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2023 – BORE**

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 6

# Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun

# (Papur Ysgrifenedig)

**2 awr a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(S23-1000N60-1-MLP-A3-36)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**Atebwch BOB cwestiwn.**

**Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.**

**Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.**

**Dylech ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.**

**(Trowch y dudalen)**

**Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.**

**Dylech dreulio 1 AWR ar Adran A ac 1 AWR ar Adran B.**

**Cofiwch dreulio amser digonol yn cynllunio eich atebion.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**(Trowch y dudalen)**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

(Trowch y dudalen)

## ADRAN A – GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH

1. Darllenwch yn ofalus y gerdd 'Arfordir' gan Megan Elenid Lewis. Cerdd yw hi sy'n sôn am daith gerdded ar hyd llwybr yr arfordir o'r Borth i Aberystwyth gan gerdded heibio Traeth Wallog.

   Ysgrifennwch DRAETHAWD yn dadansoddi CYNNWYS ac ARDDULL y darn. Wrth ddadansoddi dylech gofio:

- defnyddio TERMAU BEIRNIADAETH LENYDDOL A DYFYNIADAU
- cyfeirio at WEITHIAU LLENYDDOL ERAILL sydd yn ymdrin â THEMA neu THEMÂU tebyg gan drafod a yw'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol.

(Trowch y dudalen)

**(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd yn ogystal â thestunau a astudiwyd gennych.)**
**[40 marc]**

**ARFORDIR**

**Ei chlywed wnes, o bell**
**yn chwerthin gyda'i chriw,**
**ei llais yn gyllell**
**trwy wynt y môr.**

**Safwn innau yno**
**yn gwrthod symud,**
**yn gwrthod coelio**
**bod hon â'i North Face drud**
**yn gwarafun bro fy mebyd.**

**Syllais arni,**
**pwyso'n nes at destun ei sbri:**
**TRAETH WALLOG ¼ MILLTIR**

(Trowch y dudalen)

## ‘What does that even mean?’

Jyngl o lythrennau,
cawdel ar bostyn pren.

Dau lwybr oedd,
dau ddewis yn oes oesoedd.

I lawr i’r traeth yn dawel,
yn ddall, yn ddiddeall,
ymddiheuro mwy neu lai
am drybini dybryd ein bod
    cyn oedi, ar y tir draw
    i glicio, tapio,
    postio’r profiad ar byrth y We.

Dyma’r stwff sy’n tanio’r dydd.

(Trowch y dudalen)

**Llwybr serthach oedd y llall**
**yn nadreddu’n droellog**
**tua’r clogwyn**
**lle byddai’n rhaid dringo,**
**chwysu, cydio yn y cerrig llac**
**i ddangos i hon a’i chriw**
**bod y tonnau’n dal i dorri**
**ar draeth ein hiaith**
**islaw.**

**Dal ati wedyn**
**dros y twyni, heibio’r dibyn**
**a theimlo’r hesg yn gwau’n hanesion**
**yn rhaffau praff am ein coesau,**
**lle daw hithau trwy’r heli**
**i holi**
**pwy’n union oedd y Brenin,**
**a *Seithennyn, a’i strach?**

**(Trowch y dudalen)**

**Oddi yno, eu tywys**
**gan bwyll bach,**
**yn griwied bodlon, parod**
**hyd y lôn i lawr i'r *Sarn**
**lle daw hithau yn ei selfie**
**i ryfeddu**
**at ruddin dwfn**
**y boncyffion brau.**

**Dau lwybr oedd,**
**dau ddewis yn oes oesoedd.**

**Oedais, cyn mentro ati,**
**roedd hon yn haeddu gwybod**
**nad yno i ddangos y ffordd**
**y mae'r arwyddion**

**ond dangos hefyd ein llwybrau,**
**ein hanes, a'n holion.**

***Seithennyn – cyfeiriadaeth at gymeriad yn chwedl 'Cantre'r Gwaelod'**
***Sarn – llwybr cerrig**

**(Trowch y dudalen)**

# ADRAN B – Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN

**2. Lluniwch FWLETIN NEWYDDION yn seiliedig ar y wybodaeth isod.**

**Bydd angen i chi flaenoriaethu, dewis a dethol ffeithiau addas, rhoi trefn arnynt ac ysgrifennu'n gryno ac yn bwrpasol. Gallwch hefyd dynnu ar eich gwybodaeth bersonol pan fo'n briodol. [40 marc]**

(Trowch y dudalen)

# BWLETIN 1 PM, BWLETIN NESAF AM 2PM

## CHWARAEON

- Seintiau Newydd (TNS) – Pencampwyr Cynghrair Cymru
- Gêm olaf y tymor – curo'r Bala 2–1
- 12fed tro i fod yn bencampwyr
- TNS – unig dîm gyda phêl-droedwyr llawn amser yn y gynghrair
- Cynghrair Cymru – sefydlu 1992
- 4 tîm gorau y gynghrair yn chwarae yng nghystadlaethau Ewrop (Cynghrair y Pencampwyr a Chynghrair Ewropa)
- Poblogrwydd y gynghrair – cynnydd o 3% o ran torfeydd y llynedd
- Prif dimau Cymru yn chwarae yng nghynghreiriau Lloegr – Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam

(Trowch y dudalen)

**EIRA**

- **Anawsterau mawr i Geredigion**
- **Cymunedau gwledig wedi eu hynysu**
- **Anifeiliaid – amaethwyr yn poeni**
- **Gwyntoedd a lluwchfeydd**
- **Hyd at 1,000 o gartrefi yn ardal Tregaron heb drydan ers 48 awr**

**Prif Arolygydd Rowland Hughes, Heddlu Dyfed Powys:**

- **Cynghorion – peidio â mentro allan a theithio**
- **Amgylchiadau peryglus**

**Dafydd Evans, cynrychiolydd Dŵr Cymru:**

- **Problemau – pibellau wedi rhewi a pheirianwyr yn methu â chyrraedd**

**(Trowch y dudalen)**

**ENWEBIAD AM OSCAR**

- **Enwebiad – ffilm Gymraeg, Y Dadeni, cyfarwyddwr Terry Davies**
- **Prif actorion: Daniel Miles ac Angharad Griffiths**
- **Ffilm wedi ei seilio ar ysbïwr o Gymru a oedd yn gweithio i'r Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd**
- **Ffilmiau Cymraeg wedi eu henwebu ond dim un ffilm Gymraeg wedi ennill Oscar**
- **Ffilmio – yng Nghymru a'r Almaen**
- **20 categori a mwy i'r Oscars e.e. y ffilm orau mewn iaith dramor**

**Sylwadau Terry Davies:**

- **anrhydedd a chlod cael enwebiad**
- **arwydd o safon a safle'r diwydiant ffilmiau yng Nghymru**

**(Trowch y dudalen)**

# ADRODDIAD AR IEITHOEDD LLEIAFRIFOL

- Cyhoeddi Adroddiad gan Sefydliad Rhyngwladol Prifysgol Hafren
- Casgliad – manteision trochi plant yn yr iaith leiafrifol yn gynnar iawn (Cyfnod 0 i 3)
- Angen buddsoddi fwyfwy i hyrwyddo'r iaith
- Gwaith ymchwil – e.e. Catalwnia a Gwlad y Basg – dangos bod troi iaith pob ysgol gynradd i'r iaith 'leiafrifol' yn llwyddo – rhoi dewis yn y sector uwchradd
- Hanfodol darparu deunyddiau i rieni e.e. apiau rhyngweithiol ac animeiddiedig
- Cynyddu'r cyfleoedd i blant glywed yr iaith – gweithgareddau cymunedol ac amlgyfrwng
- Manteision addysgol i siarad dwy iaith

(Trowch y dudalen)

- Erbyn 2030 – 50% o ddisgyblion 7 oed mewn addysg Gymraeg

DIWEDD Y PAPUR